OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 No. 833

Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

RHAN 3

Elusennau

Diwygio Atodlen 18 i DTTT

3.—(1) Mae Atodlen 18 i DTTT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff 1(a) mewnosoder—

"(aa) mae paragraffau 2A i 2D yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ystyr "elusen",".

(3) Ym mharagraff 2(3)(a), yn lle "Ran 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010 (p. 13)" rhodder "baragraff 2A".

(4) Ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"**Ystyr "elusen"**

2A. At ddibenion yr Atodlen hon, ystyr "elusen" yw corff o bersonau neu ymddiriedolaeth—

(a) sydd wedi ei sefydlu at ddibenion elusennol yn unig,

(b) sy'n bodloni'r amod awdurdodaeth (gweler paragraff 2B),

(c) sy'n bodloni'r amod cofrestru (gweler paragraff 2C), a

(d) sy'n bodloni'r amod rheoli (gweler paragraff 2D).

Ystyr "elusen": yr amod awdurdodaeth

2B.—(1) Mae corff o bersonau neu ymddiriedolaeth yn bodloni'r amod awdurdodaeth os yw'n dod yn ddarostyngedig i reolaeth llys perthnasol yn y DU wrth arfer ei awdurdodaeth mewn cysylltiad ag elusennau.

(2) Ystyr "llys perthnasol yn y DU" yw—

(a) yr Uchel Lys,

(b) y Llys Sesiwn, neu

(c) yr Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon.

Ystyr "elusen": yr amod cofrestru

2C.—(1) Mae corff o bersonau neu ymddiriedolaeth yn bodloni'r amod cofrestru—

(a) yn achos corff o bersonau neu ymddiriedolaeth sy'n elusen o fewn ystyr adran 10 o Ddeddf Elusennau 2011 (p. 25), os yw amod A wedi ei fodloni, a

(b) yn achos unrhyw gorff o bersonau neu ymddiriedolaeth arall, os yw amod B wedi ei fodloni.

(2) Amod A yw bod y corff o bersonau neu'r ymddiriedolaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod wedi ei gofrestru neu wedi ei chofrestru yn y gofrestr o elusennau a gedwir o dan adran 29 o Ddeddf Elusennau 2011.

(3) Amod B yw bod y corff o bersonau neu'r ymddiriedolaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod wedi ei gofrestru neu wedi ei chofrestru mewn cofrestr sy'n cyfateb i'r hyn a grybwyllir yn amod A a gedwir o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Ystyr "elusen": yr amod rheoli

2D.—(1) Mae corff o bersonau neu ymddiriedolaeth yn bodloni'r amod rheoli os yw ei reolwyr neu ei rheolwyr yn bersonau addas a phriodol i fod yn rheolwyr y corff neu'r ymddiriedolaeth.

(2) Yn y paragraff hwn ystyr "rheolwyr", mewn perthynas â chorff o bersonau neu ymddiriedolaeth, yw'r personau sydd â rheolaeth gyffredinol dros weinyddiaeth y corff neu'r ymddiriedolaeth, ac sy'n rheoli gweinyddiaeth y corff neu'r ymddiriedolaeth yn gyffredinol.

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gyfnod nad yw'r amod rheoli yn cael ei fodloni ar ei hyd.

(4) Mae'r amod rheoli yn cael ei drin fel pe bai wedi ei fodloni os yw ACC yn ystyried—

(a) nad yw'r methiant i fodloni'r amod wedi niweidio dibenion elusennol y corff neu'r ymddiriedolaeth, neu

(b) ei bod yn deg ac yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i'r amod gael ei drin fel pe bai wedi ei fodloni ar hyd y cyfnod."

(5) Mae'r diwygiadau a wneir gan y rheoliad hwn yn cael effaith mewn perthynas â thrafodiadau tir y mae eu dyddiad cael effaith ar y diwrnod ymadael neu ar ôl hynny.